Cyngor Cymuned Tachwedd 16 2017

Presennol ; Fred Jones, Morgan Morgan, Islwyn Jones, Dylan Davies, y Cynghorydd Rowland Rees Evans a'r clerc

Ymddiheuriadau : Huw Griffith, Margaret Lewis, Dai Jones

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi

Cyfraniad i Bethel. Neb yn bresennol i roi'r sefyllfa ddiweddaraf.

Cynigion Diwygiedig y Comisiwn Ffiniau. Ni anfonwyd ail ymateb gan fod yr ymateb cyntaf wedi ei gofnodi.

Gohebiaeth
1 Gwybodaeth am bwyllgor Rheoli Datblygu mis Tachwedd.
Copi o Chwarae dros Gymru a Clerks and Councils Direct
2 Gwahoddiad i noson wobrwyo Ysgol Henry Richard, Tregaron, ar Tachwedd 30.
3 Gwybodaeth am y gorchymyn i wyro'r llwybr troed ger Pengelli
4 Cais am gefnogaeth i Nyrsys Marie Curie yng Nghymru i'w ystyried eto ym mis Mawrh gyda cheisiadau eraill.
5 Arwyddwyd ffurflen ynglŷn â gwariant ar fynwentydd
6 Cyngor Sir yn gofyn am sylwadau ar adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Ni chynigiwyd unrhyw sylwadau ar gyfer anfon ymateb.
7 Ymgynghoriad ar y newidiadau i'r gwasanaeth casglu gwastraff. Llenwyd ffurflen yr arolwg.

8 Tafarn Un-nos. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth a manylion y trefniadau cyn dod i benderfyniad.

Materion Ariannol
Ar ôl derbyn cyfriflen o'r banc roedd yn amlwg nad oedd ail ran y praesept wedi cael ei dalu i mewn. Cysylltwyd â'r swyddfa a deall nad oedd unrhyw Gyngor wedi cael y taliad. Cafwyd sicrhad y byddai hyn yn digwydd ar fyrder.
Talwyd yr archwilwyr allanol £186.00, sef yr un fath â llynedd. Bydd hyn yn gadael £1032.34 + £950 o'r praesept sydd i ddod

Heb dderbyn cyfriflen cyfrif 2
Y swm diweddaraf -30 Mehefin- £26101.48

Unrhyw Fater Arall
Dymunwyd adferiad buan i Dai Jones ar ôl ei ddamwain ar y fferm

Dyddiad y cyfarfod nesaf Ionawr 18 2018